Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Hawliau plant yn Meithrinfeydd Cymru – Mudiad Meithrin

## Gwreiddiau Hawliau Plant

Mae'n staff yn Feithrinfeydd Cymru yn ymwybodol o hawliau plant ac fel arfer da byddwn yn chwilio am hyfforddiant, cefnogaeth a gwybodaeth bellach ar hawliau plant yn rheolaidd.

Rydym yn cysylltu hawliau plant gydag ardaloedd penodol yn ein meithrinfeydd er mwyn i blant adnabod eu hawliau. Byddwn yn esbonio'r cysyniad o bwysigrwydd o breifatrwydd ee yn y tŷ bach ac wrth newid cewyn. Rydym yn gofyn i'r plant i fynegi barn a gwneud dewisiadau o adnoddau a gweithgareddau. Ym mhob un o'n lleoliadau mae yna 'fainc ffrind' - lle i'r plentyn eistedd os nad oes cwmni gyda nhw neu ffrindiau i chwarae gyda nhw. Mae'r plant eraill yn gweld hyn ac mae'n rhoi cyfle iddynt hwy gyflwyno eu hunain ac estyn croeso i'r plentyn ymuno yn y chwarae.  Mae yna gyfleoedd dros y ddarpariaeth i blant darganfod, chwarae a dysgu mewn lle diogel a chynhwysol. Mae ein staff yna bob tro i gefnogi ac i arwain y ffordd os oes angen.

Rydym yn rhannu gwybodaeth a datblygiad ein plant trwy lythyron tymhorol, trwy e byst ar facebook ac ar bosteri a lluniau yn ein derbynfeydd ar gyfer rieni a gofalwyr. Mae ein Datganiad o Ddiben yn cynnwys testun sydd yn cadarnhau ein hymrwymiad at hawliau plant.

## Cydraddoldeb a pheidio a Chamwahaniaethu

Rydym yn dathlu gwahaniaethau ymhlith ein plant trwy adnabod crefyddau a chredoau ein teuluoedd. Rydym yn dathlu nifer o ddathliadau crefyddol yn ystod y flwyddyn ac mae canllaw Dewch i Ddathlu gan Mudiad Meithrin yn ein cefnogi i wneud hyn yn bwrpasol ac yn hyderus. Rydym yn gwahodd ein rhieni/gwarchodwyr i mewn i siarad gyda'r plant hyn am eu gwlad, gwisg a thraddodiadau.

Mae'n staff yn siarad gyda'n rhieni/gofalwyr am ble a sut i dderbyn cefnogaeth ariannol ar gyfer helpi gyda ffioedd gofal plant. Bob tymor byddwn yn cynnal gweithgaredd cymdeithasol neu godi arian er mwyn datblygu perthnasoedd cryf gyda'n rhieni/ gofalwyr a'n gymdeithas. Rydym hefyd yn eu cefnogi i ddod o hyd i ddosbarthiadau dysgu Cymraeg. Mae gennym deulu o Syria gyda ni ar hyn o bryd ac rydym wedi cyfieithu'r ffurflenni cofrestru a'r pecyn croeso iddynt.

Er mwyn sicrhau bod plant yn gweld eu hunain a phobl sy'n debyg iddyn nhw yn ein lleoliadau rydym yn arddangos murluniau a phosteri ar y waliau sydd yn dangos cydraddoldeb, amrywiaethau ac anableddau amrywiol. Mae yna ddigon o lyfrau sydd yn dangos teuluoedd un rhiw, un rhiant/gofalwr, unigolion gydag anableddau a chyflyrau meddygol amrywiol. Mae gennym gasgliad da o ddoliau ethnig amrywiol, doli downs symdrome, doli gyda cleft lip, bag stoma, Barbie mewn cadair olwyn ac un gyda choes prosthetig.

Wrth gofrestru plant mae rhyw blentyn yn opsiwn - bachgen/ merch/ dim nodi neu di-ddeuaidd.

Byddwn yn gwahodd aelodau o'n gymdeithas i mewn i'r meithrinfeydd o'r eglwys, mosg, capel a synagog i siarad gyda'r plant. Mae staff o'r bwyty Tsieineaidd, Indiaid ac Eidaleg wedi ymweld i siarad am eu diwylliant, eu traddodiadau, dathlu a phwysigrwydd bwyd iddynt. Roedd y plant wrth eu bodd yn blasu, gofyn cwestiynau, mynegi barn a choginio'r bwydydd yma.

Mae gennym deulu o Syria gyda ni ar hyn o bryd ac rydym wedi cyfieithu'r ffurflenni cofrestru a'r pecyn croeso iddynt.

## Grymuso Plant

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Rydym yn rhoi cyfle i'n plant nodi a mynegi unrhyw faterion sydd yn bwysig iddynt neu sydd yn ddiddorol iddynt trwy ein proses o gynllunio, byddwn yn casglu barn y plant am y pethau maent yn hoffi gwneud a'r pethau nad ydynt yn hoffi gwneud. Mae'r sgyrsiau yma yn dylanwadu ar y ddarpariaeth a'r profiadau i ni'n cynnig ee yn yr ardal chwarae rôl a chynnwys gwrthrychau yn y ddarpariaeth barhaus mae'r plant yn dod o gartref.

Mae amser cylch yn gyfnod perffaith i gynnig cyfle i'r plant siarad am y gwrthrychau o adref ac i drafod yr hyn sydd ar eu meddyliau'r diwrnod yna. Does dim rhaid i unrhyw blentyn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd os and ydynt am wneud. Rydym yn cywain barn ein plant ar y ddarpariaeth a'r profiadau sydd yn cael eu cynnig trwy ofyn iddynt roi tic ar luniau o'r gweithgareddau ac adnoddau maent yn hoffi - mae hyn y dylanwadu yn syth ar ein cynlluniau. Rydym yn ymgeisio i fod yn y foment gyda'r plant bob tro er mwyn sicrhau darparu profiadau dilys a phwrpasol i ehangu eu dysgu wrth ddilyn eu diddordebau a phethau maent yn mwynhau gwneud.

## Cyfranogiad

Rydym yn hyderus fod llais ein plant yn cael eu clywed trwy wneud amser wrando ar blant yn siarad, yn rhannu barn, eu newyddion a son am eu profiadau personol. Mae'n hymarferwyr yn annog y plant i siarad ymysg ei gilydd amser cinio ac amser byr bryd ,mae'r amseroedd cymdeithasol yma yn bwysig iawn ac mae'n hymarferwyr yn eistedd, bwyta ac yfed gyda'r plant. Nid ydym yn gorfodi unrhyw blentyn i gyfrannu os nad ydynt am wneud mae croeso iddynt wrando.

Ar ein ffurflenni cofrestru rydym yn gofyn am hoff a chas bethau ein plant ac rydym yn trafod yn ddyddiol gyda'n rhieni/gofalwyr yr hyn sydd yn cymryd sylw ein plant. Mae yna amserlen weledol ar gael i'r rhieni/gofalwyr er mwyn iddynt weld yr hyn sydd yn digwydd o ddydd i ddydd. Rydym bob amser yn croesawi syniadau am weithgareddau, ymweliadau ac adnoddau gan ein plant a'n rhieni/gofalwyr.

Mae hapusrwydd ein plant yn sail i bopeth yn meithrinfeydd Mudiad Meithrin.